***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 No. 821

## Rheoliadau Addysg (Derbyn Plant sy'n Derbyn Gofal) (Cymru) 2009

**Amrywio trefniadau derbyn sydd eisoes wedi eu penderfynu ar gyfer y flwyddyn ysgol 2010/2011**

**7.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i awdurdodau derbyn sydd eisoes wedi penderfynu beth yw eu trefniadau derbyn yn unol ag adran 89(4) o Ddeddf 1998 mewn perthynas â'r flwyddyn ysgol 2010/2011.

(2) Os bydd ar awdurdod derbyn angen amrywio ei drefniadau derbyn er mwyn cydymffurfio â'r Rheoliadau hyn caiff eu hamrywio heb fod angen iddo gyfeirio'r amrywiad arfaethedig at Weinidogion Cymru yn unol ag adran 89(5) o Ddeddf 1998.